# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod y gwrandawiad yn ddilyniant i benderfyniad a wnaed 12.11.15 lle gohiriwyd y gwrandawiad hyd nes bod unrhyw achos erlyn yn erbyn yr ymgeisydd am gyhuddiadau wedi dod i ben.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar y datganiad,

gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Ychwanegwyd nad oedd collfarnau ychwanegol wedi eu nodi ers cyflwyno'r cais gwreiddiol a bod y wybodaeth yma wedi cael ei gyflwyno yn wirfoddol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Cydnabuwyd bod y troseddau a ddatgelwyd yn gywir ond bellach yn rai hanesyddol.

d) Yn cefnogi cais Mr A roedd Perchennog Cwmni Tacsi lleol ac fe gadarnhaodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ers rhai blynyddoedd. Nododd bod yr ymgeisydd yn berson dibynadwy a gonest a bod swydd ar gael i Mr A petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a pherchennog y Cwmni Tacsi o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

d) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol ynghyd â gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd.'

1. Bod gan yr ymgeisydd gollfarnau blaenorol, Bod yr Is Bwyllgor wedi ystyried o dan bolisi'r Cyngor, dylai o leiaf 3 blynedd basio cyn rhoi trwydded mewn amgylchiadau lle mae collfarnau perthnasol yn bodoli. Nodwyd bod 18 mlynedd wedi pasio ers collfarn ddiwethaf yr ymgeisydd, ac felly'r Is-bwyllgor yn fodlon, nad oedd y collfarnau yn gweithio yn eich erbyn.
2. Ystyriwyd bod gan yr ymgeisydd brofiad yn y maes.
3. Nad oedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried yr achos llys gan mai penderfyniad y Goron oedd peidio â dwyn achos troseddol yn erbyn yr ymgeisydd. Hefyd, anwybyddwyd honiad o yrru cerbyd hacni heb drwydded gyrrwr hacni oherwydd penderfyniad y Cyngor i dynnu achos erlyn yn ôl - cafwyd yr ymgeisydd yn ddieuog gan y llys o ganlyniad.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Dechreuodd y cyfarfod am 12.15 y.h. a daeth i ben am 1.00 y.h.

**CADEIRYDD**